

Nodiadau ar lenwi'r ffurflen Ymgeisydd yn Cyrraedd yn Hwyr Iawn ar-lein ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2021/22

1. **Gallai** ymgeisydd sy'n cyrraedd ar ôl dechrau'r arholiad gael caniatâd i fynd i mewn i'r ystafell arholiadau a sefyll yr arholiad. **Gwneir hyn yn ôl disgrisiwn llwyr y ganolfan.**
Rhaid i'r ganolfan rybuddio'r ymgeisydd bod posibilrwydd na fydd y corff dyfarnu'n derbyn ei sgrïpt pan fydd yn cyrraedd yn hwyr iawn i'r arholiad.
2. **Rhaid** caniatáu'r amser llawn ar gyfer yr arholiad i ymgeisydd sy'n cyrraedd yn hwyr ac sy'n cael sefyll gan y ganolfan.
3. Ar gyfer arholiad sy'n fwy nag un awr, nid oes gofyniad i lenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n cyrraedd o fewn un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu.
4. Bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd dros un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad o fwy nag un awr.
5. Ar gyfer arholiadau llai nag un awr, bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.
6. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai canolfannau gyflwyno'r ffurflen hon ar-lein, gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau, i'r corff dyfarnu priodol **o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad y papur dan sylw.** Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.
7. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r meysydd canlynol: Manylion y ganolfan, Manylion yr ymgeisydd, Corff Dyfarnu, Cymhwyster, Cyfres Arholiadau, Cod y pwnc neu'r uned/cydran.
8. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch sydd â'r pennawd 'Amser y daeth yr ymgeisydd o dan oruchwyliaeth staff y ganolfan'.
9. Yn y blwch 'Y rheswm dros fod yn hwyr', dylai canolfannau nodi union natur yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymgeisydd yn cyrraedd yn hwyr. Dylai canolfannau roi manylion unrhyw drefniadau arbennig a wnaethpwyd i'r ymgeisydd gyrraedd y ganolfan.
10. Yn y blychau priodol, dylai canolfannau nodi yr union amser y gwnaeth y ganolfan ddechrau a gorffen yr arholiad, a'r amser y bu i'r ymgeisydd dan sylw ddechrau a gorffen ei arholiad.
11. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch 'Pa mor sicr allwch chi ddweud nad yw'r ymgeisydd wedi gweld nac wedi cael gwybod am gynnwys y papur cyn sefyll yr arholiad?'
12. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan fod yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno'r ffurflen ac awdurdodi ei chyflwyniad.
13. **Rhaid** anfon y sgrïptiau at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.